Cyfarwyddyd Covid

Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU wedi ymrwymo i sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, tystion, cynrychiolwyr cyfreithiol a chyhoedd sy'n mynychu ein swyddfeydd a chanolfan y gwrandawiad.

Mae'r llywodraeth wedi dileu'r cyfyngiadau covid domestig sy'n weddill yn Lloegr, ond mae camau y gallwn eu cymryd o hyd o leihau'r risg o ddal a lledaenu Covid-19.

Mae lleihau'r risg o goronafeirws yn dibynnu ar bawb ohonom yn gwneud penderfyniadau synhwyrol. Dyna pam rydym yn gofyn i unrhyw un sy'n ystyried dod i wrandawiad beidio â gwneud hynny os oes unrhyw risg fod ganddynt goronafeirws neu nad ydynt yn teimlo'n dda ac nad ydynt yn siwr pam. Sylwch y bydd y gwrandawiad rhagarweiniol yn cael ei ffrydio'n fyw i YouTube.

Bydd Ymchwiliad Covid-19 y DU yn sicrhau y bydd:

- Staff yr Ymchwiliad fydd yn mynychu canolfan y gwrandawiad yn cynnal profion llif unffordd (LFTau) y diwrnod cyn iddynt fynychu canolfan y gwrandawiad;
- Gofynnir i gynrychiolwyr cyfreithiol sy'n mynychu ar ran cyfranogwyr craidd gymryd LFT cyn mynychu canolfan y gwrandawiad yn y cnawd;
- Bydd mygydau wyneb ar gael, yn ogystal â hylif diheintio dwylo;
- Bydd swyddog yn glanhau mannau cyffwrdd ac arwynebau yn rheolaidd yng nghanolfan y gwrandawiad.